

## **Rheolwr Prosiect Maethu Lles**

Cynlluniwyd Maethu Lles o safbwynt taith plentyn drwy'r system ofal a'r perthnasoedd y maent yn eu hadeiladu. Mae'n defnyddio safle'r Rhwydwaith Maethu fel y brif elusen sy'n cynrychioli plant mewn gofal i gyflenwi rhaglen amlasiantaethol ledled gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod gweithio amlasiantaethol drwy fframwaith partneriaeth yn hanfodol i wella deilliannau.

Bydd y Rheolwr Prosiect Maethu Lles yn ymuno â thîm presennol i gyflenwi'r rhaglen ledled Cymru. Yn ogystal â chynllunio rhaglen o ddsbarthiadau meistr rhithiol ar gyfer rhanbarthau ledled Cymru, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn magu perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol, bydd yn cysylltu â thimau maethu i adeiladu'r rhwydwaith Arloeswyr Maethu Lles, a bydd yn cyfrannu tuag werthuso cyfredol a gwelliant parhaus ar y rhaglen.

### **Cyfrifoldebau ac Atebolrwydd**

- Cyflenwi neu gyd-gyflenwi'r rhaglen Dosbarthiadau Meistr Maethu Lles, yn rhithiol neu yn y cnawd, i gynulleidfa amlasiantaethol.
- Cyfrannu tuag at ddatblygu cynnwys ar gyfer rhaglenni dysgu a datblygu'r Dosbarthiadau Meistr ac Arloesi.
- Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol â phartneriaid y rhaglen, yn cynnwys cynorthwyo Rheolwr y Rhaglen yn y gorchwyl o ymgysylltu â, a chontractio swyddogion cyswllt newydd, a chynnal cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid y rhaglen.
- Gweithio ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r tîm Maethu Lles i sicrhau y caiff cynlluniau'r prosiect eu cyflenwi'n effeithiol yn weithredol.
- Gweithredu fframweithiau gwerthuso i fonitro, adolygu a gwerthuso cynnydd.
- Ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid mewnol i sicrhau y caiff yr hyn a ddysgir o'r prosiect ei rannu ledled y sefydliad.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel y'u deisyfir gan Reolwr y Rhaglen.

## Ein Gwerthoedd

Fel sefydliad, credwn ein bod yn gwneud gwahaniaeth i ofal maeth, a mynegir ein gwerthoedd o bobl yn y gwaith a wnawn:

YMDDIRIEDIR ynom  
Rydym GYDA’N GILYDD  
Rydym yn HANFODOL

### Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad Hanfodol

- Profiad o reoli prosiectau a rhaglenni a anelir at gyflenwi arloesedd a newid yn y trydydd sector neu'r sector cyhoeddus.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth â thimau, sefydliadau a rhanddeiliaid dylanwadol eraill i gyflawni newid.
- Profiad o ddatblygu a chyflenwi rhaglen hyfforddi a / neu ddigwyddiadau, naill ai'n rhithiol neu yn y cnawd.
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno llafar ac ysgrifenedig ardderchog.
- Profiad o weithio â gwerthuswyr allanol ac o gynllunio dulliau gwerthuso ymarferol.
- Profiad o gynllunio a blaenoriaethu gwaith i orffen gorchwylion erbyn terfynau amser.
- Sgiliau rheoli amser a llwyth gwaith ardderchog.
- Sgiliau rheoli perthnasoedd ardderchog a'r gallu i weithio â rhanddeiliaid allweddol ar bob lefel, yn cynnwys penaethiaid gwasanaethau plant, rheolwyr gofal cymdeithasol, gofalwyr maeth, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ffurfio'r tîm o amgylch y plentyn.
- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth ardderchog, yn cynnwys rhaglenni Microsoft Office a llwyfannau cyfarfodydd rhithiol.

### Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad Manteisiol

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, a hynny'n llafar ac yn ysgrifenedig.
- Cymhwyster mewn rheoli neu brofiad cyfwerth.
- Dealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud â gofal maeth a'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru.

### Agweddau

Angerdd ac ymrwymiad i ddylanwadu ar newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc, a theuluoedd.

- Ymrwymiad i weithio o fewn polisïau ac arferion cyfle cyfartal ac amrywiaeth Y Rhwydwaith Maethu.

### Tâl ac amodau gwasanaeth

<b>Band</b>	Band 4
<b>Cyflog</b>	£30,000 - £34,000
<b>Gwylliau Blynyddol</b>	25 Diwrnod ynghyd â 5 diwrnod Y Rhwydwaith Maethu a Gwylliau'r Banc y flwyddyn.
<b>Cyfnod prawf</b>	6 mis calendr.
<b>Oriau gwaith</b>	36 Croesawir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan amser, fel rhan o rannu swydd.
<b>Lleoliad</b>	Mae'r rôl hon drwy Gymru i gyd, a chynigiwn weithio gartref neu weithio hybrid, ac mae gennym swyddfa yng Nghaerdydd.  Mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi'i leoli yng Nghymru ac yn gallu teithio i'r swyddfa yng Nghaerdydd, fel y bo angen, a mynychu cyfarfodydd ledled Cymru pan fo'n angenrheidiol.
<b>Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd</b>	Mae gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ofynnol ar gyfer y rôl hon.
<b>Pensiwn</b>	Opsiynol. Mae'r opsiwn o gynllun pryniant arian ac aberthu cyflog ar gael gydag AEGON: Cyfraniad y gweithiwr yw 3% o gyflog blynyddol gros. Cyfraniad y cyflogwr yw 5% o gyflog gros.
<b>Benthyciad Tocyn Tymor</b>	Mae benthyciad tocyn tymor di-log ar gael i bob aelod o staff yn syth.
<b>Undeb Llafur</b>	Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cydnabod yr undeb llafur Unite, a gall aelodau staff ymuno os dymunant.